

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Ebrill 2016

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Dileu'r dos i fabanod o'r brechlyn cyfun serogrŵp C meningococaid (MenC) a roddir yn dri mis o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen

Dyddiad Dod i Ben/Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Meddygon teulu
Arweinyddion Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd/ Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd
/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsys, Byrddau Iechyd/
Ymddiriedolaethau
Prif Fferyllwyr, Byrddau Iechyd/ Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Byrddau
Iechyd/ Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd
Meddwl, Byrddau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Iechyd
Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsys, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau
Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd
Cyhoeddus Cymru

Er gwybodaeth i:

Fforwm Partneriaeth GIG Cymru
Y Gymdeithas Feddygol Brydeinig
Pwyllgor Meddygon Teulu (Cymru)
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Anfonir gan:

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

David Vardy, Cangen Cydnerthedd Iechyd, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ Ffôn: 029 2080 1318

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Annwyl Gyfaill,

Dileu'r dos i fabanod o'r brechlyn cyfun serogrŵp C meningococaid (MenC) a roddir yn dri mis o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen


Mae'r Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi cyngori nad oes ar fabanod angen brechiad yn erbyn serogrŵp C meningococaid (MenC) mwyach. Felly, o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen, ni ddylai babanod mwyach gael y dos o'r brechlyn cyfun MenC a roddir ar hyn o bryd yn yr ail ymweliad imiwneiddio sylfaenol yn tua 12 wythnos oed. Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar ddos y brechlyn Hib/MenC (Menitorix) a roddir yn 12 mis oed nac ar y dos o'r brechlyn cyfun MenACWY a roddir ym mlwyddyn 9 yr ysgol a dylai'r rhain ddal i gael eu rhoi.

Nododd y JCVI, o ganlyniad i'r rhaglen MenC lwyddiannus a gyflwynwyd yn 1999, mai ychydig iawn o achosion o glefyd MenC ymledol a welir erbyn hyn. Dylai'r rhaglen o frechu pobl ifanc â'r brechlyn cyfun MenC a ddechreuodd ym mlwyddyn academaidd 2013-14, ac yn ddiweddarach, y brechlyn cyfun MenACWY, sicrhau imiwnedd da i'r boblogaeth. Bydd y dos cyfun o Hib/MenC a gynigir yn 12 mis oed yn darparu amddiffyniad da i blant bach a phlant iau. Yn ogystal, gallai cyflwyno Bexsero® (h.y. brechlyn MenB) i'r rhaglen fabanod roi rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn clefydau MenC ymledol. Felly mae'r risg o glefyd MenC i fabanod yn parhau i fod yn isel.

Bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn sicrhau bod y feddalwedd CCH2000, a ddefnyddir i drefnu brechiadau arferol yng Nghymru, wedi cael ei ddiweddarau i reoli dileu'r brechlyn MenC yn 12 wythnos oed o'r amserlen i fabanod o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fonitro cyfraddau clefydau drwy gadw goruchwyliaeth fanylach ar glefydau meningococaid.

Mae rhaglen imiwneiddio genedlaethol lwyddiannus y DU yn fanteisiol iawn i iechyd y boblogaeth gyfan a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen am eu gwaith caled.

Yr eiddoch yn gywir



Dr Chris Jones

Prif Swyddog Meddygol Dros Dro/ Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

NEWID YN Y DREFN FRECHU AR GYFER BRECHLYNNAU SY’N CYNNWYS MENC (Hib/MenC a MenACWY).

1. Mae'r newid yn y drefn ar gyfer brechlynnau sy'n cynnwys MeC yn seiliedig ar gyngor gan y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), pwyllgor annibynnol y DU o arbenigwyr imiwneiddio. Mae'r cefndir i'r newidiadau a datganiad y JCVI i'w gweld yn:
<https://www.gov.uk/government/groups/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation>
2. Mae arweiniad llawn i'w gael yn y bennod ddiwygiedig ar frechlynnau meningococaid sydd nawr wedi'i chynnwys yn *Immunisation against infectious disease* ('y Llyfr Gwyrdd'):
<https://www.gov.uk/government/publications/meningococcal-the-green-book-chapter-22>

Dyma'r drefn ddiwygiedig ar gyfer brechlynnau sy'n cynnwys MenC o 1 Gorffennaf 2016 ymlaen.

| Oedran | Dos a Brechlyn |
|---|-----------------------------------|
| 12-13 mis oed | un dos – brechlyn Hib/MenC |
| Ym mlwyddyn 9 yr ysgol (ar yr un pryd â'r Td/IPV) | un dos – brechlyn cyfun MenACWY * |

* O fis Medi 2015 ymlaen, cynigiwyd brechlyn cyfun MenACWY i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 yn lle'r dos atgyfnerthu MenC arferol. Mae hwn yn rhoi amddiffyniad ychwanegol yn erbyn clefydau meningococaid oherwydd grwpiau capsulaidd A, W ac Y mewn ymateb i achos cenedlaethol o'r clefyd MenW ymledol.

- Fel rhan o ymgyrch dal i fyny cyfnod cyfyngedig dylid cynnig i rai hyd at 25 oed sy'n dechrau yn y brifysgol fel israddedigion am y tro cyntaf frechlyn MenACWY. Mae'r brechlyn MenACWY hefyd yn cael ei gynnig i ddisgyblion blynyddoedd 10 i 13 (15-18 oed) fel rhan o raglen dal i fyny.
- Mae argymhellion manwl ar weinyddu'r brechlyn i'w gweld ym mhennod 22 o'r Llyfr Gwyrdd.

Brechu unigolion sydd â statws imiwneiddio anghyflawn neu ansicr.

3. I'r plant hynny na chawsant eu himiwneiddio yn unol â threfn arferol y DU, gweler '*Vaccination of individuals with uncertain or incomplete immunisation status*' o'r ddolen gyswllt hon:
<https://www.gov.uk/government/collections/immunisation>

Goblygiadau ar gyllid

4. Mae imiwneiddiadau plant yn cael eu cyfrif fel gwasanaethau ychwanegol yng nghontract meddygon teulu a chyllid craidd meddygon teulu sy'n talu'r costau seilwaith ar gyfer cyflwyno'r rhain (taliad swm cyffredinol neu gyllid PMS llinell sylfaen). Mae meddygfeydd teulu hefyd yn gymwys am daliadau targed os ydynt wedi brechu 70% neu 90% o'u cleifion dwyflwydd oed gyda'r brechlynnau a argymhellir, gan gynnwys ar hyn o bryd un dos o'r brechlyn MenC.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu addasu'r taliadau targed hynny i adlewyrchu dileu'r dos MenC yn 3 mis o'r amserlen i fabanod. Fodd bynnag, ni chaiff yr addasiad hwn ei wneud tan 2018-19 gan adlewyrchu'r ffaith na chaiff statws brechu ei asesu nes bod plentyn yn ddwy oed h.y. bydd plant sy'n 12 wythnos oed erbyn 30 Mehefin 2016 sy'n derbyn y dos MenC 3 mis yn dal angen cael eu hasesu pan fyddant yn cyrraedd dwyflwydd oed. Caiff trafodaethau eu cynnal gyda GPC Cymru cyn diwedd y cyfnod dwy flynedd ynglŷn ag ail-fuddsoddi'r arian hwn.

Gohebu a gwybodaeth i rieni a gweithwyr iechyd proffesiynol

6. Bydd y llyfrynnau imiwneiddio presennol yn cael eu diwygio yn unol â'r drefn newydd.
7. Mae deunyddiau ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ar gael yma:
<http://nww.immunisation.wales.nhs.uk/meningococcal-disease>

Cadw gwyliadwriaeth ar Glefydau a monitro rhaglenni brechu

8. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i achosion fel o'r blaen ac yn cadw gwyliadwriaeth fanylach ar glefydau meningococcaidd ymledol mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Mae ffurflenni ar gyfer cadw gwyliadwriaeth fanylach ar gael yn
<https://www.gov.uk/government/publications/meningococcal-disease-enhanced-surveillance-forms>.
9. Bydd adroddiadau'n cael eu darparu o hyd ar gwmpas y brechlyn Hib/MenC cyfun ar gyfer plant dwy oed drwy gyfrwng cynllun adrodd COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data a gesglir drwy'r System Iechyd Plant. I weld data defnydd rhyngweithiol ewch i
<http://nww.immunisation.wales.nhs.uk/health-board-cover-data>
10. Mae'r gwaith o gasglu data cwmpasu ar gyfer y brechlyn MenACWY a roddwyd i garfan flaenoriaethol yr ymgyrch dal i fyny (rhai a aned rhwng 01/09/1996 a 31/8/1997) mewn practisau cyffredinol o fis Awst 2015 ymlaen yn mynd rhagddo, gan ddefnyddio Audit+.

Mae data ar gyfer cyfrifo cwmpas y brechlyn MenACWY mewn pobl ifanc, a fydd yn cael cynnig y brechlyn yn bennaf drwy ysgolion, yn cael ei gasglu drwy'r System Iechyd Plant. Caiff y cwmpas ei fonitro a'i adrodd drwy gynllun adrodd COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Adrodd am achosion o glefydau meningococaid a'u rheoli

11. Dylid dal i ddilyn y canllawiau presennol. Mae'r manylion i'w cael yn <https://www.gov.uk/government/publications/meningococcal-disease-guidance-on-public-health-management>

Archebu Brechlyn MenC

12. Bydd brechlyn MenC (NeisVac-C®) yn parhau i fod ar gael i'w archebu drwy ImmForm tan 30 Mehefin 2016.
13. Dylai stociau a ddelir yn lleol o'r brechlyn MenC (NeisVac-C®) gael eu hadolygu'n ofalus cyn archebu mwy o'r brechlyn, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r dyddiad rhoi'r gorau iddi a sicrhau nad yw'r brechlyn yn cael ei archebu'n ddiangen.
14. Dylai unrhyw stoc sydd ar ôl mewn oergelloedd ar 1 Gorffennaf 2016 gael eu cadw hyd nes iddynt ddod i ben a phryd hynny dylid eu gwaredu yn unol â pholisiau lleol.